# Adnoddau Artistiaid:

## Cyfle i artistiaid greu adnodd cyfrannol i warp | g39.

Oes gennych chi sgiliau, gwybodaeth arbenigol neu wybodaeth/ gwaith ymchwil hoffech chi rannu gyda'r sector? Rydym yn cynnig ffioedd o £600 i ddatblygu adnoddau rhanadwy neu gyfeiryddion a all gael ei ddefnyddio yn nawr neu yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| Manylion: | Adnodd Artistiaid |
| Cymhwyster: | Artist Cymreig / byw yng Nghymru, unrhyw gam o'ch gyrfa |
| Cyllideb: | £600.00 |
| Dyddiad cau: | 21/08/2020 |
| Amserlen Comisiwn: | Hydref 2020 |

Rydym yn galw ar artistiaid sy'n gallu cynhyrchu adnoddau a gellir rhannu ag artistiaid eraill. Yn g39 rydym yn credu mewn rhannu gwybodaeth fel modd o gryfhau'r gymuned.

Gall pynciau adnoddau fod yn unrhyw beth gredwch all fod yn ddefnyddiol i artistiaid o unrhyw gam o'u datblygiad. Efallai byddwch yn creu canllaw ar: ymarferiad sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, gweithio'n ddwyieithog, daioni ariannol, rhwydwaith cyfoed, ymarferiad a phrotest, 'knowhow' technegydd galeri, hunangyflogaeth, ailfeddwl llwyddiant, ysgrifennu ceisiadau, cynaladwyedd – rydym yn agored i'ch syniadau. Fel casgliad, gobeithiwn y bydd yr adnoddau yn dangos sut gall ymarferiad gael dylanwad positif ar les a chymdeithas.

Bydd eich adnodd yn cael ei groesawu ar wefannau warp | g39. Dylai'r fformat fod yn un gellir ei archifo, ailafael ac ar gael i'w ddefnyddio.

*Wrth greu a chyhoeddi eich adnodd gofalwch nad ydych yn rhoi eich hunan, y cyhoedd na g39 mewn perygl o ledaenu'r Coronafeirws (e.e. Ni ddylai grwpiau ddod ynghyd).*

Mae cyllideb o £600 ar gyfer y comisiwn. Gall hyd at 90% (£540) o'r cyfanswm gael ei ryddhau ymlaen llaw. Rydyn ni'n arddel canllawiau Paying Artists (mae g39 yn sefydliad 'Categori A' o fewn y Fframwaith hwn). Dylai'r gyllideb dalu eich ffi a chostau cynhyrchu. Rydyn ni'n awyddus i weld cynigion sy'n uchelgeisiol a chreadigol, tra hefyd yn sicrhau tâl teg ar gyfer yr artist.

Byddwch yn derbyn cefnogaeth gan dîm g39 i ddatblygu'r adnodd. Bydd y gefnogaeth yn cynnwys cyngor technegol a datblygiad proffesiynol, a byddwn yn hyrwyddo'ch gwaith ac yn eich hyrwyddo chi fel artist dan gomisiwn. Bydd yr holl gyfathrebu rhyngom ni yn digwydd ar-lein, er mwyn sicrhau ein bod ni'n annog pawb i aros gartref a chadw'n ddiogel.

Bydd adnoddau ar gael erbyn mis Tachwedd 2020 fan bellaf.

## I bwy mae'r cyfle hwn?

Rydym yn croesawu ymsgeisiadau gan bobl beth bynnag fo anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodol, cyfrifoldebau teuluol, oedran, hil, tarddiad ethnig, cenedligrwydd (yn ddibynnol ar drwydded gwaith pan yn ofynnol), aelodaeth a gweithgarwch undeb llafur, credau crefyddol a gwleidyddol.

Rydym yn ymrwymo i gefnogi mwy o ymgeisiadau a chomisiynau gan artistiaid sydd â chefndir a/neu hunaniaeth sy'n cael ei dangynrychioli yn y rhaglen, yn ein hadnoddau, staff a'n bwrdd yn g39. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, artistiaid o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol, artistiaid o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, artistiaid byddar, artistiaid niwroamrywiol, artistiaid gydag anableddau neu gyda thrafferthion iechyd hirdymor ac artistiaid gyda hunaniaeth LGBTQIA+.

Ar hyn o bryd rydym yn casglu'r wybodaeth hon ar wahân i'n helpu i fonitro ein rhaglen, ond mae'n anhysbys. Os hoffech i ni ystyried eich cefndir neu hunaniaeth yn ystod y broses ddethol, gofynnwn yn garedig i chi roi gwybod i ni yn eich cais.

## Cysylltwch â ni.

Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod ein cyfleoedd yn hygyrch a bod y broses o ymgeisio yn hwylus ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Rydyn ni'n croesawu ac yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n wynebu rhwystrau, ac yn gobeithio y gallwn ddiwallu anghenion cynifer o ymgeiswyr â phosib.

Mae cymorth gyda hygyrchedd ar gael i bob ymgeisydd, gan gynnwys fformatau gwahanol a chefnogaeth arbennig wrth i chi weithio ar y comisiwn. Os hoffech chi dderbyn y ffurflen hon ar fformat gwahanol, neu os hoffech ymgeisio drwy ddull gwahanol (e.e. ar bapur, drwy fformat sain / fideo, neu fersiwn print bras), cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn hapus i drafod ffyrdd eraill o gyflwyno'ch cais.

Yn yr un modd, os oes gennych chi ofynion hygyrchedd yr hoffech drafod â ni cyn gwneud cais, cysylltwch â ni. Rydyn ni'n clustnodi cyllideb ar gyfer cefnogi anghenion hygyrchedd unigolion.

Cysylltwch â post@g39.org neu ffoniwch +44(0)2920 473 633 a gadewch neges os gwelwch yn dda. Rydyn ni'n gweithio rhan amser, a byddwn yn cydnabod eich neges o fewn tri diwrnod gwaith ac yn ymgeisio i ateb eich ymholiad neu drefnu amser a dyddiad i sgwrsio ymhellach o fewn pum niwrnod gwaith.

## Sut i wneud cais

Anfonwch naill ai:

**PDF** (dim mwy na thri thudalen o hyd)
neu
**Ffeil sain** neu **fideo** (dim mwy na 5 munud o hyd).

Rydyn ni angen gwybod:

**Pwy ydych chi:**
Cofiwch gynnwys eich enw a manylion cyswllt (naill ai cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post, rhif ffôn neu bob un o'r rhain).

**Beth hoffech chi ei wneud:** 250 gair
Dwedwch wrthon ni am yr adnodd rydych chi'n ei gynnig. Pa wybodaeth ydych chi am ei rannu, pam ydy'r wybodaeth yn bwysig neu'n ddefnyddiol, a phwy allai wneud defnydd ohono? Os ydych chi'n rhagweld y caiff yr adnodd ei gyhoeddi ar fformat gwahanol, dwedwch wrthon ni am hyn hefyd.

**Beth ydych chi wedi'i wneud eisoes:** 150 gair
Dwedwch wrthon ni sut mae'ch cais yn cysylltu â'ch profiadau hyd yma, gan ddefnyddio prosiect diweddar fel enghraifft. Byddwch mor glir â phosib. Gallwch gynnwys CV neu ddolen i'ch gwaith ar-lein os ydy hyn o gymorth, ond byddwn yn ffocysu ar eich cynnig yn hytrach na mesur eich llwyddiant blaenorol.

Gofynnwn i chi e-bostio'ch cais at **curator@g39.org** gyda'r pennawd "Resource[EICH_ENW]". Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth awtomatig a dolen i ffurflen fonitro cydraddoldeb sy'n wirfoddol.

Os ydych chi'n anfon eich cais ar ffurf ffeil sain neu fideo e-bostiwch ddolen aton ni yn hytrach nag atodiad. Os ydy hyn yn peri trafferth, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Ni fyddwn yn asesu'r sain na fideo ar sail ansawdd y recordiad.
**Dyddiad cau:** 21/08/20

**Beth fydd yn digwydd nesaf:**
Byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr i ddatgan ein penderfyniad erbyn 04/09/20

Pob lwc!